

# **Aseiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych Datganiadau ymatebol statudol Cynllun Gweithredu**

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Cynnwys

Rhagymadrodd	4
Datganiadau ymatebol statudol	4
9 Meysydd i'w Gwella	5
Manylion argymhellion 1: Parhau i ddatblygu'r naratif a'r weledigaeth a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Sir Ddinbych, er mwyn sicrhau y gall wasanaethu'r Sir yn y tymor canolig a'r hirdymor	5
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 2: Ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor o ran lles a datblygiad proffesiynol	7
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 3: Pennu blaenoriaethau amlwg ar gyfer rhaglen drawsnewid y Cyngor	8
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 4: Sicrhau bod model gweithredu a strategaeth gweithlu'r Cyngor yn cyd-fynd â'i raglen o ran gweledigaeth a thrawsnewid	9
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 5: Ystyried yn ofalus y cyfleoedd ar gyfer rhagor o waith partneriaeth drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd fel corff rhanbarthol statudol newydd	11
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 6: Defnyddio pŵer cynnull y Cyngor i ategu gwaith partneriaeth â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a chydweithio mwy er mwyn sicrhau canlyniadau ar y cyd.	12
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 7: Adolygu a chryfhau'r berthynas ag Undebau Llafur	13
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 8: Adolygu dull y Cyngor o ran sut y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'i breswylwyr, ei staff a'i bartneriaid.	15
Cyfeiriad yn yr Adroddiad 9: Cydraddoldeb	16
8 Cryfderau a Meysydd Arloesi a Nodwyd	17

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

Maes 1 a 2	17
Maes 3	18
Maes 4	19
Maes 5	19
Maes 6	20
Maes 7	20
Maes 8	21

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Rhagymadrodd

Mewn ymateb i'r Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel a gyhoeddwyd, mae'n ofynnol i'r cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ddatgan yn ei ymateb unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Darperir y cynllun gweithredu dilynol i gyflawni'r gofyniad statudol hwnnw ac mae'n ymateb i 9 argymhelliad y Panel ar gyfer gwella ac 8 o gryfderau a meysydd arloesi a nodwyd.

Mae Tîm y Prif Weithredwr yn atebol am gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd ac mae arweinydd yr Uwch Dîm Arwain wedi'i nodi i fod yn gyfrifol am gyflawni. Bydd diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn cael eu darparu i Fwrdd y Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad. Bydd diweddariadau statws yn cael eu darparu i Bwyllgorau bob 6 mis fel rhan o adroddiadau hunanasesu perfformiad y Cyngor.

### Datganiadau ymatebol statudol

#### I ba raddau rydym yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad:

"Mae'r Cyngor yn croesawu ac yn derbyn yr adroddiad a'i gasgliadau. Mae'n nodi y bu'r asesiad yn broses ddefnyddiol ac mae'n gwerthfawrogi mor feddylgar a thrylwyr y bu'r tîm Asesu. Ar gyfer Asesiadau'r dyfodol, byddem yn falch o weld mwy o sôn yn yr adroddiad terfynol am y dystiolaeth a welwyd sydd wedi arwain at bob argymhelliad. Sylw cyffredinol, sy'n adlewyrchu ar draws nifer o'n hymatebion yn y Cynllun Gweithredu, yw yr hoffem fod wedi gweld mwy o bwyslais yn y broses a'r adroddiad ar y modd rydym yn hybu lles a chadernid y gymuned a'r Cyngor ar gyfer heriau a ragwelir, yn unol â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio."

#### I ba raddau mae'r Cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion yn yr adroddiad:

"Mae'r Cyngor yn derbyn yr holl argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel ac wedi rhoi Cynllun Gweithredu ar waith sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni pob argymhelliad. Dylid nodi y cynhaliwyd yr Asesiad hwn ar adeg benodol a bod

# **Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych**

## **Cynllun Gweithredu**

cynnydd eisoes wedi digwydd yn gyflym mewn rhai meysydd, gan gynnwys blaenoriaethu'r gwaith trawsnewid."

### **9 Meysydd i'w Gwella**

#### **Manylion argymhellion 1: Parhau i ddatblygu'r naratif a'r weledigaeth a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Sir Ddinbych, er mwyn sicrhau y gall wasanaethu'r Sir yn y tymor canolig a'r hirdymor**

Dylai hyn adlewyrchu'r lluo o fanteision sy'n gysylltiedig â'r ardal, megis ei hasedau diwylliannol, naturiol a daearyddol penigamp. Dylai'r Cyngor ddatblygu'r modd y mae'n mynd ati i lunio polisiau cynhwysol, er mwyn sicrhau mai'r un yw'r weledigaeth ar draws y Cyngor, ei bartneriaid a'i breswylwyr.

Dylai'r weledigaeth hon gyd-fynd â'i flaenoriaethau trawsnewid hirdymor a'i gynllun ariannol tymor canolig.

#### **Cam gweithredu mewn ymateb**

Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith yn ymgysylltu â thrigolion a phartneriaid yn ein Cynlluniau Agosach at Gymunedau a Chreu Lleoedd i ddatblygu ein naratif a'n gweledigaeth. Byddwn hefyd yn datblygu ein blaenoriaethau trawsnewid a'n cynllun ariannol.

Er ein bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi asedau'r ardal fel y'u nodir yn yr adroddiad, rydym yn cynnig bod ein naratif a'n gweledigaeth wedi'u seilio'n fwy cadarn ar adeiladu lles a gwydnwch cymunedau a chynghorau ar gyfer heriau a ragwelir yn y dyfodol, nid dim ond wrth farchnata'r asedau hyn fel yr awgrymir yn yr adroddiad. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn drwy'r camau gweithredu canlynol.

#### **Gweithred 1**

Datblygu'r naratif a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Cyngor a Sir Ddinbych; ystyried gwerth creu deunydd marchnata uchelgeisiol i gefnogi ein nodau mewnfuddsoddi.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 8.11 (Arg.1)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol -  
Perfformiad, Digidol ac Asedau

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2026

### Gweithred 2

Gweithio drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod y Cynllun Lles sydd ar y gweill yn cael ei ddatblygu'n gynhwysol ac yn adlewyrchu naratif a gweledigaeth ariannol hyfyw, yn unol â'r cynllun corfforaethol a'r blaenoriaethau trawsnewid.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i gyfathrebu'n well o fewn y cyngor, gyda thrigolion a phartneriaid i feithrin perchnogaeth a dealltwriaeth o weledigaeth y cyngor a chynnydd wrth gyflawni.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 8.11 (Arg.1)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol - Perfformiad,  
Digidol ac Asedau

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2026

### Gweithred 3

Byddwn yn adolygu sut rydym yn cyfleu ein perfformiad (wedi'i nodi fel dangosyddion perfformiad allweddol)

3a) o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol

3b) ar draws prosiectau allweddol

3c) i'r rhai sy'n llai abl i gael mynediad at ddulliau cyfathrebu digidol (gweler Cam Gweithredu 13, isod)

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

Bydd hyn yn cynnwys briffio unigolion (aelodau gwleidyddol a swyddogion) sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrrff allanol neu mewn digwyddiadau fel y gallant eirioli'n well dros y Cyngor a'i genhadaeth.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 8.11 (Arg.1)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Gweithred 3a) Medi 2025

Gweithred 3b) Mawrth 2026

Gweithred 3c) Yn barhaus i swyddogion; Yn flynyddol i aelodau drwy ddulliau priodol

### **Cyfeiriad yn yr Adroddiad 2: Ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor o ran lles a datblygiad proffesiynol**

Mae angen i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r uwch dîm rheoli ehangach barhau i ganolbwyntio a bod yn wydn wrth wynebu heriau parhaus a heriau i'r dyfodol.

#### **Cam gweithredu mewn ymateb**

Byddwn yn parhau i ddarparu amgylchedd gwaith diogel, sefydlog a chynaliadwy i'r holl staff. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth bresennol, rydym yn datblygu Strategaeth Les sefydliadol, i'w rhoi ar waith yn ystod 2025/26.

Bydd ein Strategaeth Les yn blaenoriaethu iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu, gan gefnogi amodau pellach er mwyn iddynt fod yn ddiogel ac yn iach. Er ein bod yn derbyn bod cefnogaeth benodol i Uwch Dîm Arwain y Cyngor yn hanfodol ar gyfer parhad busnes, rydym yn cynnig bod yn rhaid ymestyn y gwydnwch a'r ffocws hwn hefyd i reolwyr canol ehangach, gan adeiladu ar anghenion lles a datblygiad proffesiynol drwy sesiynau 1:1 parhaus

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Gweithred 4

Byddwn yn sicrhau bod y Strategaeth Les gorfforaethol yn nodi'n benodol sut y gall y Cyngor gefnogi lles a gwydnwch ein Tîm Arwain (Tîm Gweithredol Corfforaethol/UDA/Rheolwyr Canol) yn well.

Byddwn yn gweithio gyda'r Tîm Arwain (Tîm Gweithredol Corfforaethol/UDA/Rheolwyr Canol) i ddeall eu hanghenion datblygiad proffesiynol gan gynnwys hyfforddiant, hyfforddi a mentora.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 8.11 (Arg. 2)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Mai 2025

### Gweithred 5

O hyn, byddwn yn cynhyrchu Cynllun Datblygiad Proffesiynol Corfforaethol i'w roi ar waith yn ystod 2025/26.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 8.11 (Arg.2)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Mehefin 2025

### **Cyfeiriad yn yr Adroddiad 3: Pennu blaenoriaethau amlwg ar gyfer rhaglen drawsnewid y Cyngor**

Dylai'r Cyngor barhau i ddilyn ei raglen drawsnewid. Bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth ofalus i ba rai o'i brosiectau a'i fentrau y bydd yn eu blaenoriaethu ac yn bwrw ymlaen â hwy, a bwysicaf oll, pa brosiectau na fyddant yn cael eu blaenoriaethu.



# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

Dylai'r rhain adlewyrchu gweledigaeth ac uchelgais y Cyngor yn y tymor hir, a chyd-fynd â'i strategaeth ariannol tymor canolig, ei strategaeth gweithlu a'i barodrwydd i dderbyn risg.

### Cam gweithredu mewn ymateb

Mae'r broses o flaenoriaethu ein Rhaglen Drawsnewid bellach wedi'i chwblhau. Mae gwaith ymgynghori ar draws uwch reolwyr wedi dangos cefnogaeth gref i'r rhaglen drawsnewid, a byddwn yn parhau i'w chyflwyno drwy'r dull cyfrannol o flaenoriaethu prosiectau.

Yn unol â Chamau Gweithredu [Gweithred 2](#) a [Gweithred 3](#), uchod, byddwn yn parhau i ddatblygu a chyfleu'r naratif o amgylch y trawsnewid hwnnw, a sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori yn ein Cynllun Lles.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 9.9 (Arg. 3)

**Swyddog Cyfrifol:** Yn unol â Chamau Gweithredu [Gweithred 2](#) a [Gweithred 3](#)

**Erbyn Pryd:** Yn unol â Chamau Gweithredu [Gweithred 2](#) a [Gweithred 3](#)

### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 4: Sicrhau bod model gweithredu a strategaeth gweithlu'r Cyngor yn cyd-fynd â'i raglen o ran gweledigaeth a thrawsnewid

Bydd angen i'r Cyngor ystyried yn ofalus sut mae ei weledigaeth yn trosi i fodel gweithredu'r Cyngor. Dylai hyn gynnwys sut y gall y Cyngor gefnogi staff i fodloni gofynion gweledigaeth i'r dyfodol o ran sut mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn cadw at ei strategaeth allweddol, sy'n galluogi newid trawsnewidiol.

### Cam gweithredu mewn ymateb

Bydd cynllunio, dylunio, datblygu polisi a safonau gwasanaeth yn cael eu cymryd fesul achos i wneud penderfyniadau comisiynu (gwneud/prynu/benthyg) a bydd y gweithgaredd

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

hwn yn cael ei ysgogi gan brosesau cynllunio gwasanaeth a rheoli contractau blynyddol. Disgwylir y bydd model economi gymysg yn parhau yn CSDd fel ei fodel gweithredu.

### Gweithred 6a

Byddwn yn cwblhau iteriad diweddaraf ymarfer cynllunio'r gweithlu gyda gwasanaethau i nodi anghenion eu gweithlu a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ein rhaglen drawsnewid, ein gweledigaeth a'r pwysau ariannol rŵan ac yn y dyfodol (6a). Bydd hyn yn cynnwys ystyried datblygiad proffesiynol ar gyfer uwch reolwyr a rheolwyr canol yn unol â Cham [Gweithred 5](#), uchod, ac arfer da wrth gynllunio olyniaeth.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 9.9 (Arg.4)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Hydref 2025

### Gweithred 6b

Byddwn yn defnyddio camau gweithredu allweddol a gasglwyd o ymarfer cynllunio'r gweithlu i adolygu Strategaeth Gweithlu'r Cyngor, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â rhaglen drawsnewid y cyngor (6b).

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 9.9 (Arg.4)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Ebrill 2026

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 5: Ystyried yn ofalus y cyfleoedd ar gyfer rhagor o waith partneriaeth drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd fel corff rhanbarthol statudol newydd

Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl bwysig y bydd gan bartneriaid i'w chwarae wrth 'reoli'r' galw am wasanaethau allweddol y Cyngor. Mae gan y Cyngor gyfle i ddatblygu ei ddull o weithio mewn partneriaeth a'i ategu drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â Chyd-bwyllgorau Corfforedig statudol newydd.

### Cam gweithredu mewn ymateb

Mae'r Cyngor yn bwriadu adeiladu ar ei waith partneriaeth rhanbarthol presennol i archwilio a chyflawni enillion effeithlonrwydd parhaus ac i leihau dyblygu ymdrech drwy fwy o gydweithio.

### Gweithred 7

Gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i ddeall a datblygu cynigion ar gyfer mwy o gydweithio:

- 7a) lleihau dyblygu a chyflawni enillion effeithlonrwydd a sicrhau bod arfer gorau mewn rheoli gwaith partneriaeth yn cael ei gynnal
- 7b) a chyfleoedd wedi'u cyfleu'n glir i weithwyr, aelodau a thrigolion

### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 10.4 (Arg.5)

<b>Swyddog Cyfrifol:</b>	Gweithred 7a) Prif Weithredwr Gweithred 7b) Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl
<b>Erbyn Pryd:</b>	Gweithred 7a) Rhagfyr 2027 Gweithred 7b) Rhagfyr 2027

# **Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych**

## **Cynllun Gweithredu**

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad 6: Defnyddio pŵer cynnull y Cyngor i ategu gwaith partneriaeth â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a chydweithio mwy er mwyn sicrhau canlyniadau ar y cyd.**

Dangoswyd i'r Panel fod y Cyngor yn gweithio â'i Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned mewn rhai ardaloedd ac mae'n cydnabod y rolau a'r gefnogaeth allweddol a all ddeillio o'r berthynas hon. Mae'r Panel yn awgrymu y gellid cryfhau'r gwaith hwn ymhellach drwy sgysiau mwy cynnar ac adeiladol ynghylch capasiti a faint o adnoddau sydd gan y Cynghorau hynny i gefnogi dyheadau ehangach y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau trawsnewid a bod yn rhan hanfodol o fodel gweithredu'r Cyngor yn y dyfodol.

### **Cam gweithredu mewn ymateb**

Rydym yn derbyn bod angen i ni ddatblygu'r berthynas gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, ac yn gweld hyn fel porth i ehangu ein gwaith gyda chymunedau, busnesau a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Bydd datblygu arfer gorau o amgylch gweithio mewn partneriaeth yn cefnogi ein gwaith gyda'n holl bartneriaid - rhai presennol a'r rhai y byddwn yn eu datblygu o'r newydd.

### **Gweithred 8**

Drwy arfer gorau mewn rheoli partneriaeth, byddwn yn adeiladu perthynas fwy colegol gyda chynghorau dinas, tref a chymuned e.e. drwy adfer cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddog cyswllt penodedig a chynnal cyfarfodydd blynyddol gyda'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd (8a). Byddwn yn casglu ac yn hyrwyddo astudiaethau achos o waith partneriaeth effeithiol rhwng cynghorau sir a chynghorau lleol (8b). Drwy'r cyfarfodydd uchod, byddwn yn cynnwys Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch meysydd o ddiddordeb a rennir.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Gweithred 9

Fel rhan o ddatblygu cynlluniau creu lleoedd, byddwn yn gweithio gyda chynghorau tref lleol i nodi ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol a busnesau mewn meysydd o ddiddordeb a rennir sy'n berthnasol i'r grwpiau hynny.

#### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 10.4 (Arg 6)

**Swyddog Cyfrifol:** Gweithred 8a) Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau  
Gweithred 8b) Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau  
Gweithred 9 - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn  
Gwlad

**Erbyn Pryd:** Gweithred 8a) Awst 2027  
Gweithred 8b) Awst 2027  
Gweithred 9 – Rhagfyr 2028

### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 7: Adolygu a chryfhau'r berthynas ag Undebau Llafur

O edrych ar y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 newydd, dylai uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor ystyried a oes modd iddynt wneud mwy i fodloni nodau ac egwyddorion datblygu consensws a chydweithio fel y nodir yn y ddeddf gydag Undebau Llafur.

#### Cam gweithredu mewn ymateb

Byddem yn gwerthfawrogi perthynas agosach a phartneriaeth ddyfnach ag undebau llafur ac yn ceisio adeiladu ar yr ymgysylltu rheolaidd presennol, a arweinir yn bennaf gan y tîm Adnoddau Dynol.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Gweithred 10a

Byddwn yn cynnal dadansoddiad o werth posibl i flaenoriaethau'r cyngor o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) newydd ac yn archwilio cyfleoedd i feithrin ymgysylltiad.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.7)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2025

### Gweithred 10b

Byddwn yn gweithio gyda'r Undebau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl undebau a'r prosesau presennol sydd gennym ar waith o ran ymgysylltu ag undebau llafur.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.7)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2026

### Gweithred 11

Byddwn yn gwreiddio nodau ac egwyddorion adeiladu consensws a chydweithio yn systemau a phrosesau'r cyngor drwy eu cynnwys yn y broses Sefydlu Corfforaethol a'r Cwrs Hyfforddi ar gyfer Rheolwyr Newydd.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.7)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2026

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 8: Adolygu dull y Cyngor o ran sut y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'i breswylwyr, ei staff a'i bartneriaid.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ymagwedd tuag at sicrhau bod yr offer a'r adnoddau cywir ar waith ganddo, er mwyn ymgysylltu â'i staff, ei ddinasyddion a'i fudd-ddeiliaid, mewn modd dwyffordd, ystyrlon.

#### Cam gweithredu mewn ymateb

Mae'r Cyngor yn glir ei fod am wella dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu â thrigolion, gweithwyr, busnesau a phartneriaid, ac mae ganddo gynlluniau eisoes ar y gweill i wneud hynny (e.e. gweler Cam Gweithredu 2 uchod yn benodol). Ar ben hynny, gweler y canlynol:

#### Gweithred 12

Byddwn yn datblygu ac yn gwella gwefan blog newyddion er mwyn i Gyngor Sir Ddinbych rannu ei newyddion i'r wasg a'r cyhoedd. Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cyfathrebu â thrigolion, busnesau a grwpiau cymunedol mewn ffordd glir ac mewn fformat sy'n ddealladwy ac yn hygyrch.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.8)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2025

#### Gweithred 13

Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella dulliau cyfathrebu â staff, yn enwedig ar gyfer y staff hynny nad oes ganddynt fynediad at e-byst a mewnwyd y cyngor. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r defnydd o ap pwrpasol ar gyfer staff Sir Ddinbych.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.8)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl

**Erbyn Pryd:** Rhagfyr 2026

### Gweithred 14

Byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu o'r Archwiliad Mewnol o Drefniadau Partneriaeth (adroddiad D232441) i ddatblygu ein hymagwedd ar gyfer partneriaeth ymhellach wrth i ni symud ymlaen â rhaglen drawsnewid y Cyngor.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.8)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau

**Erbyn Pryd:** Yn unol â'r camau gweithredu yn yr adroddiad Archwilio Mewnol (ar ffurf drafft ar hyn o bryd)

### Cyfeiriad yn yr Adroddiad 9: Cydraddoldeb

Wrth adolygu ei Gynllun Corfforaethol mae angen i'r Cyngor ystyried beth yw'r ffordd orau o gymhwyso gofynion Dyletswyddau Penodol Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010, (er enghraifft y Cynllun Cydraddoldeb Strategol), er mwyn sicrhau bod dull cadarn ac effeithiol ar waith ganddo.

### Cam gweithredu mewn ymateb

Rydym wedi integreiddio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ein Cynllun Corfforaethol. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn dod yn rhai prif ffrwd a bod cyfrifoldeb ar bawb i wella (mae cydraddoldeb hefyd yn ystyriaeth ganolog o'r asesiad o effaith ar les sydd ei angen ar gyfer pob prosiect).



# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

Mae gennym hefyd Fwrdd Cydraddoldeb a Chyflawni Strategol penodol, sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni agweddau cydraddoldeb y cynllun integredig. Mae adroddiadau perfformiad cydraddoldeb annibynnol yn cael eu cynhyrchu bob chwarter o fis Hydref 2024, gan olrhain cynnydd o ran cyflawni.

### Gweithred 15

Byddwn yn cysylltu â'r ddau awdurdod lleol arall yng Nghymru sydd wedi integreiddio eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w Cynllun Corfforaethol, fel y gallwn rannu arfer da ac unrhyw heriau a brofwyd.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 10.4 (Arg.9)

**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau

**Erbyn Pryd:** Diwedd 2025

## 8 Cryfderau a Meysydd Arloesi a Nodwyd

### Maes 1 a 2

#### Maes 1

Clymblaid wleidyddol aeddfed a sefydlog, sy'n gallu cydweithio er budd y Sir a'i thrigolion.

#### Maes 2

Perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng swyddogion ac aelodau, sy'n deall eu rolau unigryw a chyflenwol.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

### Ymateb sefydliadol

Mae'r ddau gryfder hyn wedi bod yn ganolog i gynnal iechyd llywodraethu corfforaethol cadarn dros y deng mlynedd neu fwy diwethaf, a byddant yn hanfodol ar gyfer iechyd llywodraethu corfforaethol parhaus wrth symud ymlaen.

Mae'r pedwar gwerth a'r pum egwyddor a hyrwyddir gan y Cyngor yn allweddol i barhau a datblygu'r glymblaid a'r perthnasoedd gwaith da sydd wrth wraidd y sylwadau hyn. Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi treulio llawer o amser yn ymgysylltu â Chynghorwyr ac yn eu hyfforddi. Bydd yn ceisio adeiladu ar y perthnasoedd hyn wrth symud ymlaen, yn enwedig drwy waith bwrdd "Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad".

<b>Cyfeiriad yn yr Adroddiad</b>	6.1 (1)
----------------------------------	---------

	6.1 (2)
--	---------

<b>Swyddog Cyfrifol:</b>	1 - Prif Weithredwr
--------------------------	---------------------

	2 - Prif Weithredwr
--	---------------------

<b>Erbyn Pryd:</b>	1 - Parhaus
--------------------	-------------

	2 - Parhaus
--	-------------

### Maes 3

Prif Weithredwr dygn a llawn egni, sydd wedi ceisio sicrhau rhagor o eglurder ac atebolrwydd o ran strwythur cyfarwyddwyr y Cyngor, gan sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau pellach a pharhau i hyrwyddo'r diwylliant 'Un Cyngor a Dull Sir Ddinbych'.

### Ymateb sefydliadol

Mae [Gweithred 4](#) (Strategaeth Lles Corfforaethol), [Gweithred 5](#) (Cynllun Datblygiad Proffesiynol Corfforaethol) a [Gweithred 6](#) (Ymarfer Cynllunio'r Gweithlu) oll yn cyfrannu at gynnal y cryfder hwn, a byddant yn hollbwysig ar gyfer sicrhau lles a gwydnwch parhaus o fewn y sefydliad.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 6.1 (3)

**Swyddog Cyfrifol:** Gweler [Gweithred 1](#); [Gweithred 2](#); [Gweithred 3](#); [Gweithred 4](#); [Gweithred 5](#); [Gweithred 6](#)

**Erbyn Pryd:** Gweler [Gweithred 1](#); [Gweithred 2](#); [Gweithred 3](#); [Gweithred 4](#); [Gweithred 5](#); [Gweithred 6](#)

### Maes 4

Cydnabyddiaeth gref ymhlith staff o'r 'Dull Sir Ddinbych' ac 'Un Cyngor'.

#### Ymateb sefydliadol

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ymgysylltu a chyfathrebu â gweithwyr ynghylch y blaenoriaethau hyn, gan nodi Gweithred 13 uchod yn arbennig.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 6.1 (4)

**Swyddog Cyfrifol:** Gweler [Gweithred 13](#)

**Erbyn Pryd:** Gweler [Gweithred 13](#)

### Maes 5

Ymdeimlad cryf o falchder ac ymrwymiad gan staff tuag at wneud gwahaniaeth i gymunedau, a pharodwydd i gefnogi staff y Cyngor o feysydd gwasanaeth eraill sydd angen cymorth tymor byr e.e. ymateb i faterion cwsmeriaid mewn perthynas â gwastraff.

#### Ymateb sefydliadol

Fel y nodir yng Ngweithred 4 mewn perthynas ag argymhelliad 8.11 (Rec.2) uchod, byddwn yn parhau i gefnogi lles yr holl staff, yn enwedig yn dilyn profiadau dwys neu anodd iawn.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 6.1 (5)

**Swyddog Cyfrifol:** Gweler [Gweithred 4](#)

**Erbyn Pryd:** Gweler [Gweithred 4](#)

### Maes 6

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda â'i staff ac aelodau hyd yma ynghylch ei bwysau cyllidebol uniongyrchol.

#### Ymateb sefydliadol

Fel y nodir uchod, byddwn yn datblygu ein dull o gyfathrebu ac ymgysylltu ymhellach, er mwyn cefnogi rhaglen drawsnewid a chyllideb y Cyngor.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 6.2 (1)

**Swyddog Cyfrifol:** Gweler [Gweithred 2](#); [Gweithred 3](#); [Gweithred 13](#)

**Erbyn Pryd:** Gweler [Gweithred 2](#); [Gweithred 3](#); [Gweithred 13](#)

### Maes 7

Llawer iawn o waith integreiddio ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, sydd i'w weld yn amlwg yn strwythur rheoli'r sefydliad, ond hefyd wrth rannu adborth y rhai a gafodd eu cyfweld.

#### Ymateb sefydliadol

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r integreiddiad hwn.

# Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gweithredu

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 6.2 (2)

**Swyddog Cyfrifol:** Cyfarwyddwr Corfforaethol Gofal Cymdeithasol ac Addysg

**Erbyn Pryd:** Parhaus

### Maes 8

Grwpiau Ardal yr Aelodau, lle mae aelodau a swyddogion yn cwrdd mewn wardiau dynodedig ar hyd a lled y Sir i drafod blaenoriaethau lleol preswylwyr a materion sy'n cael effaith yn lleol e.e. rhoi wyneb newydd ar ffyrdd. Yn yr enghraifft hon, trafodwyd a chynhigiwyd dewis ar ba ffordd y dylid rhoi wyneb newydd fel blaenoriaeth leol (ac eithrio gofynion statudol) drwy ddefnyddio'r adnoddau presennol. Roedd y dull hwn yn ymddangos fel un arloesol i'r Panel ac yn sicr yn ffynhonnell ar gyfer ymgysylltu ag aelodau a'r gymuned gyfan.

### Ymateb sefydliadol

Byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o swyddogaeth Grwpiau Ardal yr Aelodau, er mwyn cryfhau ein hymgysylltiad â thrigolion ymhellach a'r modd yr ydym yn ymateb iddynt.

**Cyfeiriad yn yr Adroddiad** 6.2 (3)

**Swyddog Cyfrifol:** Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes

**Erbyn Pryd:** Parhaus